# 1934 CWM CELYN

Cwm Celyn, cura'm calon
Dim ond sôn amdanat ti,
Mae rhyw swyn i'm yn dy enw,
Yn dy fawredd a dy fri,
Gorwedd wna dy ddolydd ffrwythlon
Yn nhawelwch'r uchel dir,
Rhwng mynyddoedd serth rhamantus
Sydd yn ymffrost hen y Sir.

Ar yr aswy yr ymestyn
Cwm Gingefail, hen ei dras;
Ac o'r mynydd, afon Celyn
Lithra rhwng ei lethrau bras,
Heibio'r pentref â dan ganu,
Nid oes ball am funud awr,
I gael uno â'r Tryweryn
Hanner milltir 'nis i lawr.

Cwyd dy olwg i'r de-ddwyrain
Ar olygfa wych ei threfn,
Gyda godre'r bryniau coediog
Rhed y briffordd lydan lefn;
Trwy ganolfan y gwastatir,
Fel rhyw neidr droellog fawr,
Araf dreigla'r hen Dryweryn
Ar ei thaith i'r moroedd mawr.

Yn gyfochrog a'r rhai yma
Rhed y rheilffordd haearn faith,
Gyda'r 'halts' a'r orsaf bwysig
Pwy fa'i byth heb fynd ar daith,
Tyrrau trydan o Faentwrog
Red trwy'r cwm yn llinell syth,
Gyda'r fellten mewn llyffethair,
Dyfais dyn ni phalla byth.

Tro dy olwg tua'r pentref
Edrych ar y chwe' tŷ tlws
Sydd oddeutu glannau'r afon
A'r ffordd fawr ym min y drws;
Dau Bryn-hyfryd a Glan Celyn,
Glan-yr-aber neu y siop,
Tŷ'n y bont a Thŷ y capel,
Dyna chwech a dyna stop.

Weldi'r prif adeilad acw?
Dyna'r Capel, hardd ei lun,
Ac o'i ôl y fynwent wylia

Feddrod annwyl aml un,
Tros y bont awn tua'r Ysgol,
Amgylchynir hon â mur,
Ac o'i gweld, fe ddaw atgofion
Aml gosb achosai gur.

Ffermwyr neu chwarelwyr diwyd
Yw'r trigolion oll, o'r bron,
Ardal weithgar, heb segurdod
Iddi'n perthyn, ydyw hon;
Dyma gwm er oesoedd bore
Fu'n fagwrfa enwog rai,
Ac mae'n para felly heddiw
'Dyw ei fri un gronyn llai.

Wel, fy nghyfaill, dyna'r Celyn,
Beth yw'th farn amdano ef?
A oes unman yn rhagori
Arno, o dan lesni'r nef?
Rwy'n dychmygu clywed sibrwd
Yr awelon iach o'r môr,
Drwy'r bydysawd rhestra'n flaenaf
Dyma gampwaith cread Iôr.

*John Lewis Jones, Coedle*
(Cyn athro yw John Lewis Jones a mab Coedle, Arenig)